


Ysgrifennu i Blant

Casia Wiliam

Mae ysgrifennu i blant yn debyg i ysgrifennu i oedolion mewn sawl ffordd; i ddechrau mae gofyn ichi adnabod eich cynulleidfa. Os am ysgrifennu ar gyfer plant mae'n rhaid adnabod plant, mae'n rhaid gwybod pa bethau y maen nhw'n ymddiddori ynddyn nhw ar wahanol adegau neu oedrannau, mae'n rhaid cael syniad o'r hyn sydd yn eu poeni, y pethau sydd yn eu diddanu ac wrth gwrs, y pethau sy'n gwneud iddyn nhw chwerthin. Un ffordd amlwg o wneud hynny, ac rydw i wedi gwneud llawer ohono yn ystod y blynyddoedd diweddar, yw bod yng nghwmni plant. Does dim yn curo ymweliad ysgol; cael amser i sgwrsio gyda llond dosbarth o blant brwdfrydig, eu holi a rhoi cyfle iddyn nhwythau holi'r awdur. Mae'r hyn y maen nhw'n ei rannu efo fi yn werthfawr, a'u cwestiynau yn ddadlennol, ac mi fyddaf yn aml yn llenwi tudalennau niferus yn fy llyfr nodiadau ar ôl dychwelyd i'r car.



Darllen i adnabod y maes

Nid yw'n bosib i bawb wneud hyn, wrth gwrs, ac efallai na fydd modd ichi ymgysylltu gyda phlant o oedran yr ydych yn dymuno ysgrifennu ar eu cyfer. Y ffordd arall felly, ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei wneud beth bynnag os am ysgrifennu i blant, yw darllen, darllen a darllen mwy. Darllen cymaint â phosib o'r hyn sydd ar gael ar gyfer yr oedran dan sylw: mae gweisg wedi tueddu i hyrwyddo yn unol â chyfnodau addysgu. Mae llawer iawn o lyfrau gwreiddiol yn cael eu cyhoeddi i blant heddiw, mwy nag erioed o'r blaen yn y Gymraeg. Mae'n syniad pori trwy'r cyfrolau poblogaidd a cheisio meddwl beth yw'r hud ynddyn nhw sydd yn swyno darllenwyr ifanc? Beth am y stori sy'n taro deuddeg? Pa eirfa sydd yn addas ar gyfer yr oedran yma? Pa mor hir yw'r penodau? Mae cyfresi yn rhai gwerth eu darllen hefyd – os yw gwasg wedi comisiynu cyfres mae'n amlwg bod ganddi ffydd yn yr awdur a'r straeon; mae'n hyderus y byddan nhw'n gwerthu. Ewch i gael cip ar gyfresi megis Na, Nel! (Meleri Wyn James, Y Lolfa – addas ar gyfer 7-9 oed), Sw Sara Mai (Casia Wiliam, Y Lolfa – addas ar gyfer 8-12 oed), Cyfres y Melanai (Bethan Gwanas, Y Lolfa – addas ar gyfer 12+) neu Chwedlau'r Copa Coch (Elidir Jones, Atebol – addas ar gyfer 12+).

Meddwl am thema

Wrth ddarllen, fe ddewch i sylwi bod themâu yn bethau mawr mewn llyfrau plant. Yn reit aml gallwch ddweud dim ond wrth edrych ar glawr llyfr beth yw'r brif thema – anifeiliaid, ffrindiau, bwystfilod neu hud a lledrith ac yn y blaen. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i blant wybod am beth y mae'r llyfr yn sôn yn un peth. Os yw plant yn mwynhau dysgu am y gofod maen nhw am gael eu denu at lyfrau sy'n ymwneud â'r gofod felly mae'n bwysig gwneud hynny yn amlwg ar y clawr ac yn y broliant. Cofiwch nad y plentyn fydd yn darllen y stori bob amser, mae'n bosib mai rhiant neu oedolyn arall fydd yn darllen y stori i'r plentyn neu ddosbarth o blant, ond mae'n debygol mai'r plentyn fydd yn dewis y stori oddi ar y silff, yn y siop neu yn y llyfrgell.

Mae cael thema glir yn ei gwneud hi'n haws i farchnata llyfrau plant hefyd. Gyda mwy o lyfrau nag erioed yn cael eu cyhoeddi i blant yn Gymraeg mae'r farchnad yn gystadleuol, ac os oes thema gref i'r llyfr sy'n golygu bod modd ei farchnata mewn ffordd gyffrous yna mae'n fanteisiol. Er enghraifft, os yw'n llyfr am y gofod, gellir cael lansiad gyda chyfle i glywed y stori ac yna gael sesiwn crefft i bawb greu planed neu roced eu hunain. Os yw'r llyfr yn sôn am hud a lledrith, gellir cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i greu hudlath gyda'r llyfr, ac yn y blaen. Mae unrhyw beth sy'n gwneud i'r llyfr sefyll allan yn mynd i apelio at weisg ac at ddarllenwyr ifanc.

Adrodd stori

Yna down at y stori ei hun. Rhywbeth sy'n gyffredin iawn ymysg llyfrau plant yw patrwm. Meddylwch chi am rai clasuron diweddar, er enghraifft *Y Gryffalo* gan Julia Donaldson (addasiad Cymraeg Gwynne Williams, 2014). Dyma ichi lyfr sydd wedi gwerthu dros 13.5 miliwn copi. Beth felly, meddech chi, yw cyfrinach y stori hon? Mae sawl peth: mae'r cymeriad bach, diniwed ond cyfrwys yn trechu'r bwystfil mawr, cas; mae'r stori'n cael ei hadrodd ar ffurf cwpledi mydr ac odl sy'n apelio'n fawr at glustiau bach, ond hefyd mae yma batrwm. Mae'r llygoden fach yn cyfarfod ag anifeiliaid y goedwig fesul un, ac mae pob un yn ei gwahodd atyn nhw am bryd, ond mae'r llygoden fach yn gwybod mai am ei bwyta hi y maen nhw. Mae hi felly yn twyllo gan ddweud ei bod hi ar ei ffordd i gyfarfod y Gryffalo, bwystfil mawr dychmygol a allai eu bwyta nhw bob tamaid. Mae'n cyfarfod â'r llwynog, yna'r dylluan, ac yn olaf, y neidr. Mae'n dweud yr un fath wrthyn nhw i gyd ac mae sawl llinell yn cael ei hailadrodd o fewn y testun. Mae apêl fawr yn hyn i'r plentyn – maen nhw'n gwybod beth sy'n digwydd nesaf am gyfnod o'r stori – maen nhw'n rhannu jôc y llygoden os leiciwch chi. Ar ôl dychryn pawb, daw syndod mawr wrth i'r llygoden gwrdd â'r Gryffalo! Wrth gwrs, mae'r Gryffalo am ei bwyta felly mae'r llygoden yn meddwl eto ac yn dweud mai hi yw'r creadur mwyaf milain yn y goedwig a bod pawb yn ei hofni. I ffwrdd â hi gyda'r Gryffalo wedyn gan ymweld eto â'r llwynog, y dylluan a'r neidr yn eu tro. Mae'r ailadrodd yma eto yn dod â'r plentyn yn rhan o'r stori, gan ein bod ni, ddarllenwyr, oherwydd y patrwm, yn dod i wybod beth yw tric y llygoden. Mae'n syml ond yn effeithiol, ac mae patrymau tebyg i'w gweld mewn nifer fawr o straeon poblogaidd i blant.

Yn *The Very Hungry Caterpillar* (Carle 1969), mae'r siani flewog yn bwyta rhagor o fwyd bob tro. Yn *Charlie and the Chocolate Factory* (Dahl 1964) mae un plentyn drwg yn diflannu ym mhob stafell yn y ffatri siocled. Wrth feddwl am lyfrau Cymraeg wedyn, mae rhywun yn meddwl am gyfresi poblogaidd fel Gwlad y Rwla gan Angharad Tomos. Yn y rhain mae cymeriad y Dewin Dwl bob amser yn gwneud rhywbeth gwirion ond annwyl, mae Strempen bob amser yn gwneud rhywbeth aflan a drygionus, ac mae'r Llipryn Llwyd yn drist – dyma'r patrwm. Yn y gyfres ddiweddar Na, Nel! gan Meleri Wyn James, mae Nel bob amser yn gwneud drygau ac yn ei ffeindio ei hun mewn sefyllfaoedd doniol. Mae plant yn hoffi gwybod beth i'w ddisgwyl, yn hoffi rhywbeth cyfarwydd, mae'n rhoi boddhad mawr iddyn nhw, ac yn eu tynnu i mewn i'r stori.

Darllen yn uchel

Elfen arall i'w hystyried gyda llyfrau i blant, ac rydw i wedi cyffwrdd ar hyn yn barod, yw ei bod yn rhaid cofio nad y plentyn fydd yn darllen y stori o reidrwydd. Yn aml iawn, iawn mae llyfrau plant, yn enwedig llyfrau llun a stori, yn cael eu darllen yn uchel i blentyn. Arfer da iawn felly wrth ysgrifennu i blant yw darllen y testun yn uchel, er mwyn gweld sut y mae'n swnio ar lafar. Mae'n brofiad tra gwahanol darllen rhywbeth yn dawel a'i ddarllen yn uchel. Yn enwedig felly os yw'n llyfr mydr ac odl – fydd hi'n amlwg i'r oedolyn sut i ddarllen y brawddegau? Lle i roi'r pwysau yn y frawddeg? Mewn llyfr da does dim rhaid i'r oedolyn feddwl ddwywaith am hyn. Mae addasiadau Cymraeg o lyfrau llun a stori sydd mewn mydr ac odl weithiau yn disgyn yn fflat, gan fod y person sy'n addasu wedi gorfod defnyddio geiriau penodol er mwyn sicrhau'r mydr a'r odl ond nid yw'r eirfa yna bob amser yn addas ar gyfer yr oedran targed yn Gymraeg. Rydw i'n mwynhau gwneud addasiadau am y rheswm hwn, mae'n her a hanner! Pe baech chi am gael golwg, dau addasiad o'r fath gen i yw *Weithiau Dwi'n Gandryll* (Atebol, 2021) ac *Enfawr* (Rily, 2024).

Gweld drwy lygaid plentyn

Gyda'r plentyn mewn cof, un peth arall i sylwi arno wrth ysgrifennu i blant, yw ceisio gweld trwy lygaid y plentyn. Os oes golygfa mewn caffi, er enghraifft, mae'n bosib y byddai'r oedolyn yn sylwi'n syth ar y fwydlen ar y bwrdd du, a'r cacennau sydd ar dop y cownter, ond beth fyddai plentyn pump oed yn ei weld? Efallai na fyddan nhw'n medru darllen yr ysgrifen ar y bwrdd du, ac y bydd y cacennau ar y cownter yn rhy uchel. Mi fyddan nhw yn sylwi ar y lemonêd sydd wedi troi ar y llawr, a'r ci sydd yn cysgu wrth draed ei berchennog. Wrth adrodd stori i blentyn, mae'n bwysig ceisio cofio gweld y byd trwy eu llygaid nhw, ar eu lefel nhw. Mae cyfres Ynyr yr Ysbryd gan Rhian Cadwaladr (Gwasg Carreg Gwalch – o dan 7 oed) yn llwyddo yn hyn o beth, ac felly *Gwag y Nos* (Atebol – 9-11 oed) gan Sioned Wyn Roberts.

Deialog

I orffen, mae'n rhaid pwysleisio pwysigrwydd deialog. Mae stori yn ffordd o ehangu geirfa plant, ac yn ffordd iddyn nhw ddysgu bod gan wahanol bobl wahanol bersonoliaethau. Mae'r ddeialog mewn llyfrau plant yn gwneud llawer; mae'n aml yn cynnig hiwmor (yn enwedig os yw'r oedolion yn rhai da am wneud lleisiau doniol!), ac mae'n cynnig lliw – mae gwahaniaeth mawr rhwng y pethau mae'r Dewin Dwl yn eu dweud a'r pethau y mae'r Llipryn Llwyd yn eu dweud, er enghraifft. Mae deialog dda yn cario stori, ac yn hepgor yr angen i lenwi'r testun gyda disgrifiadau. Mae'n well clywed bod rhywun yn gas o'r hyn y maen nhw'n ei ddweud, na bod y testun yn dweud eu bod yn gas. Mae hyn yn flaenllaw mewn cof gen i wrth ysgrifennu llyfrau Sw Sara Mai; rydw i'n ceisio sicrhau fy mod yn tynnu gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae'r plant a'r oedolion yn siarad, gan ychwanegu digon o hiwmor yn y ddeialog.

Dyna gip ar rai o'r elfennau a'r technegau sydd yn rhaid eu hystyried wrth ysgrifennu i blant.

Mae **Casia Wiliam** yn fardd ac awdur sawl cyfrol i blant a phobl ifanc. Hi oedd Bardd Plant Cymru yn 2017-19 ac fe gyhoeddwyd cyfrol o'i barddoniaeth i oedolion, *Eiliad ac Einioes*, yn 2020. Enillodd cyfrol gyntaf ei chyfres boblogaidd, *Sw Sara Mai* (2020), Wobr Tir na n-Og (categori cynradd) yn 2021. Yn 2023, cyhoeddodd ei nofel gyntaf ar gyfer oedolion ifanc, *Sêr y Nos yn Gwenu*.

Cyfeiriadau

- Carle, Eric. 1969. *The Very Hungry Caterpillar*. London: Hamish Hamilton.
- Dahl, Roald. 1964. *Charlie and the Chocolate Factory*. London: George Allen and Unwin.
- Donaldson, Julia. 1999. *The Gruffalo*. London: Macmillan (gweler hefyd *Y Gryffalo*, addasiad Cymraeg gan Gwynne Williams (Caerdydd: Gwasg y Dref Wen).
- James, Meleri Wyn. 2014. *Na, Nel!* Talybont: Y Lolfa (am deitlau pellach yn y gyfres, gweler: <https://www.gwales.com/>).
- Tomos, Angharad. 1983. *Rala Rwdins*. Talybont: Y Lolfa (am deitlau pellach yn y gyfres, gweler: <https://www.gwales.com/>).
- Wiliam, Casia. 2020. *Sw Sara Mai*. Talybont: Y Lolfa (am deitlau pellach yn y gyfres, gweler: <https://www.gwales.com/>).
- Wiliam, Casia. 2021. *Weithiau Dwi'n Gandryll* (addasiad Cymraeg o gyfrol Timothy Knapman, *Sometimes I am furious*). Aberystwyth: Atebol.
- Wiliam, Casia. 2024. *Enfawr* (addasiad Cymraeg o gyfrol Rob Biddulph, *Gigantic*) Caerffili: Rily.

Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0

Mae'r testun hwn wedi'i ryddhau dan y drwydded [Creative Commons BY-SA 4.0](#), sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i'r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler [testun y drwydded](#) am ragor o fanylion.